Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyd-gynhyrchu â gofalwyr mewn lleoliadau iechyd: Pecyn cymorth cyd-gynhyrchu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector iechyd a gyda'r sector iechyd

---

Rhan 2. Enghreifftiau o gyd-gynhyrchu ar waith

Rydyn ni wedi casglu astudiaethau achos ac enghreifftiau o gyd-gynhyrchu ar waith, at ei gilydd, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn trosi'r fframweithiau damcaniaethol yn Rhan 1 i ddangos sut y mae pethau'n edrych yn ymarferol. Bwriedir i'r rhain gynnig rhywfaint o ysbrydoliaeth ac ymdeimlad o'r ystod eang o gyd-destunau lle mae cyd-gynhyrchu yn gallu gwneud gwahaniaeth ac ychwanegu gwerth. Mae rhai yn cynnwys gofalwyr yn uniongyrchol, ac eraill yn cyfrannu at greu'r amodau lle y gall pawb, yn gleifion a gofalwyr, gyfrannu. Cofiwch fod pob sefyllfa (gwasanaeth, tîm, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) yn wahanol ac y bydd eich cyd-gynhyrchu chi'n debyg ond yn unigryw!

2.1. Cerdyn Gofalwyr Cymorth Dementia Sir Benfro

Mae gofalwyr yn cyd-gynhyrchu adnodd ar gyfer gofalwyr newydd yn seiliedig ar eu profiad o fywyd

Yn ystod sgyrsiau a sesiynau cyd-ddylunio gyda gofalwyr yn Sir Benfro, nodwyd yr angen am gefnogaeth i ofalwyr (di-dâl / teuluol) ar gamau cyntaf y siwrnai dementia, pan fyddant gyda'r Meddyg Teulu yn cael y sgwrs gyntaf am gof neu ymddygiad eu hanwyliaid, cyn unrhyw ddiagnosis.

Yr ateb a gynigiwyd gan ofalwyr: cerdyn A6 i'w roi i'r gofalwr yn bersonol yn y

Feddygfa, gyda rhywfaint o wybodaeth ar lafar am y gwasanaeth hwn fel gwasanaeth sy'n benodol ar eu cyfer nhw (ac nid y claf). Mae'r cerdyn yn cynnwys rhif ffôn Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Gofalwyr Sir Benfro (PCISS), lle mae gofalwyr yn gallu cael cymorth a gwybodaeth.

Y gwahaniaeth a wnaeth cyd-gynhyrchu:

Nodwyd y broblem gan staff ar sail yr hyn yr oedd gofalwyr yn ei ddweud, a chyd-ddyluniwyd y canlyniad gyda gofalwyr, gan sicrhau mai dyma oedd yr ateb iawn i ofalwyr eraill mewn sefyllfa debyg.

Roedd y broses ar pen-gynnyrch yn syml iawn, ond roedd yr effaith yn bwerus. Mae'r defnydd o'r cardiau gan Feddygfeydd Teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ledled y sir wedi bod yn llwyddiannus iawn oherwydd mae'n teimlo mor berthnasol i anghenion gofalwyr.

2.2. Canolfan Canser Maggie's, Abertawe

Mae claf a'u teulu yn gweithio gyda gweithwyr gofal iechyd i ddatblygu cefnogaeth i gleifion a'u teuluoedd

Crëwyd Maggie's trwy ddull cyd-gynhyrchu, gan ddefnyddio arbenigedd rhywun â diagnosis o ganser ac aelodau'r teulu, ynghyd â gweithwyr gofal canser proffesiynol, penseiri, dylunwyr tirlun a chynllunwyr cartref.

Mae pobl a gefnogir gan Maggie's yn cyfrannu mewn ffordd sylweddol at ddylunio'r gwasanaethau a darparu'r gwasanaethau, yn enwedig trwy'r rhwydweithiau cyfoedion. Mae'r ffocws yn gadarn ar yr unigolyn cyfan, ei gryfderau, ei ddiddordebau a'r canlyniadau sy'n bwysig iddo. Mae yna gymorth ar gael hefyd i ofalwyr.

Law yn llaw ag arbenigedd y staff ceir profiad bywyd y rheiny maen nhw'n eu cefnogi a chefnogaeth gan asedau'r gymuned ehangach.

Y gwahaniaeth a wnaeth cyd-gynhyrchu:

Mae gwaith Maggie's yn enghraifft o sut y mae'r trydydd sector a'r GIG yn gallu cydweithio i fodloni anghenion holistaidd cleifion. Mae'n arddangos pŵer y gymuned ac effaith pobl sy'n rhannu eu straeon a'u profiadau.

Roedd pobl yn teimlo'n llai unig ac yn gallu rheoli straen yn well.

Darllen mwy: Gwefan Maggie's *[Cynnwys allanol ar gael yn Saesneg yn unig.]*
https://www.maggies.org/about-us/how-maggies-works/our-story/

2.3. Taliadau Uniongyrchol Cyngor Gwynedd

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i wneud eu gwasanaeth yn hyblyg ac yn un sy'n rhoi pobl yn gyntaf

Roedd y nifer a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol yng Ngwynedd yn isel, am fod y system yn anhyblyg ac yn anhygyrch, ac roedd lefelau hunanreolaeth y rheiny a oedd yn eu cael, neu'r gweithwyr cymdeithasol a oedd yn eu cefnogi, yn finimal; roedd y ffocws ar gydymffurfiaeth ariannol yn hytrach na chanlyniadau effeithiol.

Er mwyn gwella'r gwasanaeth, sefydlodd y Cyngor dasglu a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff, er mwyn ystyried beth oedd arnyn nhw ei eisiau gan wasanaeth Taliadau Uniongyrchol. Aeth y tasglu ati i gynnwys pob defnyddiwr mewn arolygon, cynnal grwpiau ffocws a digwyddiadau hyfforddiant, a datblygu cyfres o egwyddorion fel sail ar gyfer y polisi newydd.

Y gwahaniaeth a wnaeth cyd-gynhyrchu:

Erbyn hyn mae gan y Cyngor gynllun Taliadau Uniongyrchol sy'n cefnogi pobl i ddylunio pecyn gofal sy'n iawn iddyn nhw; yn hyblyg, yn bersonol ac yn gallu cael ei addasu'n iawn wrth i amgylchiadau newid.

Yn ogystal, trwy gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, lleihawyd y polisi Taliadau Uniongyrchol o dros 100 tudalen i lyfryn 4-tudalen hawdd ei ddefnyddio.

2.4. Gwefan Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru

Mae cleifion a theuluoedd yn datblygu adnodd gyda gweithwyr proffesiynol

Mae Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru yn grŵp gwirfoddol o bobl y mae canser wedi effeithio arnynt. Mewn 'digwyddiadau gwrando' a drefnwyd gan y Fforwm amlygwyd yr angen am wybodaeth well am reoli effaith ehangach diagnosis o ganser – ariannol, emosiynol ac ymarferol. Cefnogwyd y dystiolaeth hon gan adborth o arolygon lleol.

Arweiniodd aelodau'r Fforwm ddatblygiad gwefan ddwyieithog at y diben hwn, gan weithio fel partneriaid cyfartal gydag ystod o ddarparwyr gofal iechyd, er mwyn darparu ateb a fyddai o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eraill.

Y gwahaniaeth a wnaeth cyd-gynhyrchu:

Mae'r prosiect wedi cael canlyniadau cadarnhaol i gleifion, eu teuluoedd a'r gweithwyr iechyd proffesiynol. Aethant ati i sefydlu fformat, cynnwys a chynllun y wefan ar sail profiadau bywyd ac anghenion a dewisiadau defnyddwyr.

Yn ganlyniad, mae pobl yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt pan fo'i hangen arnynt. Yn y broses, mae rhwydweithiau aelodau wedi tyfu ac mae'r Fforwm ei hun wedi cael ail wynt.

2.5. Proses Sefydlu Staff Newydd Drive

Mae staff yn cyd-gynllunio cyfnod cynefino ar gyfer cydweithwyr newydd, er mwyn gwreiddio arfer cyd-gynhyrchu gyda'r bobl maen nhw'n eu cefnogi a'u gofalwyr

Mae Drive yn ne Cymru yn rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu i fyw'r bywyd o'u dewis yn eu cymunedau lleol. Nododd yr Arweinydd Cyd-gynhyrchu a'r Arweinydd Hyfforddiant gyfle yn y broses o sefydlu staff i ffocysu ar gyd-gynhyrchu, er mwyn sicrhau bod gan gydweithwyr Drive gyd-ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu a'u bod yn teimlo'n hyderus i roi ei werthoedd ar waith yn eu gwaith.

Roedd y broses sefydlu bresennol eisoes yn canolbwyntio ar arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Drive wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn gwrando ar leisiau'r rheiny y mae'n eu cefnogi, a'u teuluoedd; i gryfhau hyn ymhellach, penderfynwyd ffocysu'n benodol ar gyd-gynhyrchu trwy gydol eu gwaith bob-dydd. Cyd-ddyluniwyd y cynnwys cyd-gynhyrchu ar gyfer y broses sefydlu gan aelodau o staff Drive, gyda chymorth a chyngor arbenigol gan y Lab Cyd-gynhyrchu.

Mae'r adnodd a grëwyd yn adnodd gweledol wedi'i animeiddio sy'n esbonio beth yw cyd-gynhyrchu a sut y mae'n edrych yn ymarferol, ac mae yna ganllawiau ysgrifenedig hefyd i fynd gyda'r adnodd gweledol. Er mwyn sefydlu'r rhain mewn ffordd ystyrlon ymhlith aelodau newydd o staff, ac aelodau presennol o staff, bydd trafodaeth grŵp wedi'i hwyluso i ddilyn yr adnodd, er mwyn archwilio cyd-gynhyrchu ymhellach gyda chydweithwyr. Nod Drive yw cael Hwylusydd â Phrofiad Bywyd o brosiect Ymwybodol o Ofalwyr i hwyluso'r trafodaethau hyn ar y cyd.

Y gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud:

Mewn trafodaethau cynnar, amlygodd y ffaith fod gan aelodau o staff lefelau gwybodaeth gwahanol am gyd-gynhyrchu. Roedd Drive eisiau sicrhau bod gan bob aelod o staff gyd-ddealltwriaeth, y gallent ddatblygu diwylliant effeithiol ac arfer beunyddiol o gyd-gynhyrchu arni. Bydd aelodau presennol o staff yn gallu mynd at yr adnodd trwy'r fewnrwyd i staff, a bydd pob aelod newydd o staff sy'n dechrau gweithio gyda Drive yn dod ar draws yr adnodd yn rhan o'u proses sefydlu ofynnol.

Wrth fabwysiadu hyn yn eang ar draws y sefydliad, bydd yn gosod y sylfeini er mwyn gweithredu arfer a gwerthoedd cyd-gynhyrchu mewn ffordd ystyrlon ar draws Drive. Bydd hyn yn creu profiad sy'n seiliedig ar asedau, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n berthynol, ar gyfer y bobl maen nhw'n eu cefnogi a'u teuluoedd.

2.6. Darllen pellach

Casgliad o astudiaethau achos am gyd-gynhyrchu o faes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y Deyrnas Unedig (Nesta) *[Cynnwys allanol ar gael yn Saesneg yn unig.]* https://media.nesta.org.uk/documents/co-production_catalogue.pdf

2.7. I ddilyn ymlaen

Efallai yr hoffech chi:

- Drafod yr hyn yr ydych wedi bod yn ei ddarllen gyda'ch tîm: pa astudiaeth achos oedd wedi sefyll allan i chi?
- Gwrando ar y penodau canlynol gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru o'n cyfres o bodlediadau:
    - Straeon am gyd-gynhyrchu gyda Daniel Madge, Uwch-reolwr Datblygu Sefydliadol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (37'27") *[Cynnwys allanol ar gael yn Saesneg yn unig.]* https://podcasters.spotify.com/pod/show/copronetwales/episodes/S02E08-Co-production-stories-with-Daniel-Madge-e20msuf
    - Cyd-gynhyrchu mewn iechyd a gofal cymdeithasol gyda Jenny O'Hara Jakeway, Prif Weithredwr Credu Cysylltu Gofalwyr, a Daniel Madge, Uwch-reolwr Datblygu Sefydliadol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (37'26") *[Cynnwys allanol ar gael yn Saesneg yn unig.]* https://podcasters.spotify.com/pod/show/copronetwales/episodes/S02E11-Co-production-in-health-and-social-care-e20mt3p
- Gwylio (neu wrando ar) y sesiwn ar-lein hon gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru am "gyd-cynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl" (1:32'32") sy'n cynnwys cydweithwyr o Gyngor Kirklees, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Fforwm Rhieni sy'n Ofalwyr Abertawe, Hafal Crossroads a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS). *[Cynnwys allanol ar gael yn Saesneg yn unig.]* https://youtu.be/KlupyFSluHY
- Myfyrio ar eich maes gwasanaeth neu faes gwaith (yn unigol neu fel tîm), ac adnabod unrhyw gyfleodd lle byddai cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ddefnyddiol.